

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community
Council

Cofnodion / Minutes

Oherwydd y Covid-19, penderfynwyd i cynnal cyfarfod ar-lein
ar nos Fawrth, 20fed Hydref 2020

*Due to Covid-19, it was decided to hold an online meeting.
on Tuesday 20th October 2020*

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Mr Steven A. Jones **SAJ**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mr Arwyn Jones **AJ**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Cenwyn Williams **CW**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**.

Yn absennol / Absent: Mr Mark E. Evans **MEE** (Is-Cadeirydd / Vice Chairperson), Mr Chris Davies **CD**.

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

5.2 - Datganwyd diddordeb gan **SAJ** ynglyn a talu anfonebau i Mr N Jones. / **SAJ**
declared an interest regarding paying of invoices to Mr N Jones.

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 29/09/20. / Minutes of last meeting 29/09/2020.

Derbyniwyd y cofnodion 29/09/20 yn gywir, Cynigwyd gan **AJ**, Eiliwyd gan **ST**.
The minutes 29/09/20 were confirmed correct, Proposed by AJ, Seconded by ST.

4. Balans ar 01/10/2020. / Balance on 01/10/2020.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/10/2020)	-	£13,129.81
Cynilo "BMM" (ar 22/09/2020)	-	£ 4,944.87
	=	£18,074.68

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 14/10/2020. / Y Ganolfan Bank balance on 14/10/2020.

Cyfrif "Community" (ar 14/10/2020)	-	£ 2,635.13
------------------------------------	---	-------------------

Cynilo "BMM" (ar 14/10/2020)	-	£ 3,318.84
	=	£ 5,953.97

5. Cyllid / Finance

5.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£1,789.54 - Dylan Davies Electrical Contractors ar gyfer gosod goleuadau LED a gwneud gwaith atgyweirio yn Y Ganolfan / *Dylan Davies Electrical Contractors for installing LED lights & repair work in Y Ganolfan*

£35.00 - I.C.O. am diogelu data / *For data protection (GDPR)*

£715.00 – Cyflog y Clerc (Gorffennaf, Awst a Medi). / *Clerks wages (July, August & September)*

5.2 Biliau i'w dalu / Bills for payment

£10,776.72 - Play & Leisure to supply & install 2 x Modified Sports Goal End

£9.12 - I **LH** am brynu llyfr o 12 stamp dosbarth 1af / *To **LH** for buying a book of 12 1st class stamps*

£55.50 - Llanfairpwll Poppy Appeal am 3 torch pabi ar gyfer Sul y Cofio. / *Llanfairpwll Poppy Appeal for 3 poppy wreaths for Remembrance Sunday.*

£1,750.00 - Mr N Jones am torri gwair a hel ysbwriel yn cae chwarae / *Cutting grass and collecting rubbish in playing field.*

£580.00 - Mr N Jones am torri yr ôll llwybrau cyhoeddus dwywaith. / *For cutting all public footpaths twice.*

£220.00 - Mr N Jones am torri gwrych tu cefn i tai Bryn Eithin / *For cutting the hedge behind Bryn Eithin houses*

Cynigwyd gan **AJ**, Eiliwyd gan **ST**. / *Proposed by **AJ**, Seconded by **ST**.*

5.3 Taliadau wedi Derbyn / Payments Received

Dim / *None*

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

6.0.1 Cae chwarae / cae peldroed / Asesiad Risg. / Playing field / football field / Risk Assessment.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd y clerc ganiatâd gan yr aelodau i dalu bîl am y goliau newydd yn y cae peldroed. / *Following discussion, the clerk was given permission from the members to pay for the new goals in the football field.*

Mae'r siglenni wedi cael eu archebu. / *The swings have been ordered.*

Bydd y cwmni yn dod i newid y boltiau ar gyfer y goliau newydd yn fuan iawn. Mae'r cynghorwyr wedi cytuno i dalu'r anfoneb am y goliau newydd unwaith bydd y gwaith yma wedi'i gwblhau. / *The company will come to replace the bolts for the new goals very soon. The councillors have agreed to pay the invoice for the new goals once this work is complete.*

Mae angen creu asesiad risg newydd ar gyfer y offer newydd yn y cae chwarae a'r cae peldroed. / *New risk assessment needs to be created for the new equipment in the playing field and football pitch.*

6.0.2 Y Ganolfan

Bydd y peppercorn rent yn cael ei dalu yn fuan. / *The peppercorn rent will be paid soon.*

Mae cyfarfod blynyddol pwyllgor Y Ganolfan yn cael ei gynnal nos yfory. Mae cynghorwyr cymunedol eisiau y diweddariad ynglŷn a damprwydd a'r tô. / *Y Ganolfan's annual committee meeting is being held tomorrow evening. Community councillors want an update regarding the damp and the roof.*

6.0.3 Llwybr cyhoeddus 37/001 / Public footpaths 37/001

Nid yw'r clerc wedi derbyn diweddariad gan CSYM. / *The clerk has not received an update from IACC.*

6.0.4 Draen y tu allan i tai Cader Idan / A drain outside Cader Idan houses

Nid yw'r clerc wedi derbyn diweddariad gan CSYM. / *The clerk has not received an update from IACC.*

6.0.5 Sul y Cofio / Remembrance Sunday

Mae'r cynghorwyr wedi penderfynu peidio â chynnal gwasanaeth Sul y Cofio eleni. Bydd Cymru gyfan o dan glo llywodraeth Cymru tan 9/11/2020 i atal coronafirws rhag lledaenu ac i wneud yn siwr bod pawb yn aros yn ddiogel. Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi'r penderfyniad yma trwy wefannau cymdeithasol yn fuan iawn. Y clerc i gysylltu gyda'r gweinidog gyda'r phenderfyniad y cynghorwyr. / *The councillors have decided not to hold a Remembrance Sunday service this year. The whole of Wales will be under lockdown by the Welsh government until 9/11/2020 to stop the coronavirus spreading and make sure everyone stays safe. The chairperson will announce this decision via social websites very soon. The clerk to contact the minister with the councillors decision.*

6.0.6 Is-bwyllgor cyllid / Financial sub-committee

Mae angen i'r is-bwyllgor cyllid trefnu cyfarfod er mwyn dechrau trafod y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. / *The finance sub-committee needs to arrange a meeting for them to start discussing the precept for the next financial year.*

6.0.7 Peiriannau ail-lenwi poteli dŵr. / Water refill stations.

Gweler yr ebost a dderbyniwyd gan CSYM ynglŷn a peiriannau ail-lenwi poteli dŵr. Mae cynghorwyr wedi penderfynnu i fynd gyda opsiwn 3. / *See*

the email that we received from IACC regarding the water refill stations. Councillors have decided to go with option 3.

6.0.8 Llythyr gan AS drost Ynys Môn / A letter from MP for Anglesey

Y cler wedi derbyn llythyr gan AS drost Ynys Môn. / The clerk has received a letter from MP for Anglesey.

6.0.9 Ymgynghoriadau / Consultations

Canllawiau Cynllunio Atodol / Supplementary Planning Guidance

Adroddiad Blynnyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru / Independent Remuneration Panel for Wales - draft report

Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 / Establishing the Town and Country Planning (Strategic Development Plan) (Wales) Regulations 2021

Cyhoeddiadau Polisi: Prynu Gorfodol / Policy Announcement: Compulsory Purchase

Dosbarthwyd yr holl ymgynghoriadau uchod i bob aelod am sylwadau. / All of the above consultations have been circulated to each member for comments.

6.1.0 Un Llais Cymru Rhaglen Hyfforddi - Hydref 2020 / One Voice Wales Training Programme - October 2020

Dosbarthwyd manylion y cyrsiau ar-lein i bob aelod. / Details of the online courses have been circulated to each member.

7. Cynllunio / Planning

7.1 Ceisiadau / Applications

FPL/2020/8, Gwydryn Newydd, Llanfairpwllgwyngyll - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol/ysgubor i ty gwyliau gosod, gosod system trin carthffosiaeth ynghyd a addasu'r fynedfa presennol i geir yn / *Full application for conversion of an outbuilding/barn into a holiday let, installation of a private treatment tank together with alterations to the existing vehicular access at*
Dim sylw / No comment

FPL/2020/199, Ffridd Fawr, Llanidan, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer lleoli Cwt Bugeiliaid ar gyfer llety tymhorol yn / *Full application for siting of a Shepherds Hut for seasonal accomodation at*
Dim sylw / No comment

7.2 Penderfyniadau / Decisions

Dim / None

8. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

9. Adroddiadau gan y cynghorwyr sir. / Reports from the county councillors.

9.1 Adroddiad Cynghorydd **EWJ / Councillor **EWJ** Report**

Mae eisiau llongyfarch Cynghorydd **DR** ar ddod yn is-gadeirydd gyda Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). / *Councillor **DR** is to be congratulated on becoming vice chair with Area of Outstanding Natural Beauty (AONB).*

9.2 Adroddiad Cynghorydd **DR / Councillor **DR** Report**

Mwy o fusnes fel arfer yn digwydd rwan. Mae Covid-19 yn codi pryder gyda thrigolion Ynys Môn gyda canllawiau clo yn digwydd o 6y.h. Dydd Gwener 23/10/2020 am bythefnos. / *More business as usual is happening now. Covid-19 is raising concern with residents of Ikm with lockdown taking place from 6pm. Friday 23/10/2020 for two weeks.*

10. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

ST - Rydym wedi derbyn ebost o ymddiswyddiad gan **MEE**. Mae'r clerc eisiau ysgrifennu ato i ddweud ein bod yn derbyn ei ymddiswyddiad ac yn diolch iddo am ei wasanaeth dros y blynyddoedd ac mae croeso iddo ymuno â ni yn y dyfodol. / *We have received an email of resignation from **MEE**. The clerk wants to write to him to say that we accept his resignation and thank him for his services over the years and he is welcome to join us in the future.*

SAJ - Mae angen mwy o aelodau ar y Cyngor Cymuned Llanidan a bydd angen hysbysebu ar wefannau cymdeithasol. / *Llanidan Community Council needs more members and we will need to advertise on social websites.*

10.2 Nid oedd gan aelodau eraill dim i'w adrodd. / *Other members had nothing to report.*

11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Nos Fawrth, 24/11/2020 am 6.30y.h. ar-lein.
Tuesday Evening, 24/11/2020 at 6.30pm online.

11.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.05y.h.. / *The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.05pm.*